



# Ffederasiwn Ysgolion Afon Dwyryd

Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni 2023-24

**Gair gan y Cadeirydd 2023/2024**

Braint a phleser eto yw medru cyflwyno adroddiad sy'n adlewyrchu blwyddyn lwyddiannus o safbwynt gwaith cwricwlaidd a gweithgareddau allgyrsiol yn hanes Ffederasiwn Ysgolion Afon Dwyryd.

Fel Corff Llywodraethol, ymfalchïwn yn lwyddiannau'r ysgol ac rydym yn llawn sylweddoli ein cyfrifoldeb cyffredinol am gyrhaeddiadau addysgiadol, safonau ac ymddygiad. Rydym yn anelu i fod y gorau y gallwn ym hob maes o'r cwricwlwm ac yn herio'r staff, disgyblion a rhieni er mwyn cyflawni hyn.

Fel Corff rydym yn ymwybodol o'r meysydd lle mae angen gwella ac rydym yn gweithio 'n barhaus a diflino i wneud hyn gyda chefnogaeth a dealltwriaeth chi y rhieni. Mae'r ddwy ysgol yn parhau i gynorthwyo pob plentyn i gyrraedd eu llawn botensial fel dysgwr a darperir cwricwlwm sy'n addas i bob unigolyn gan roi cyfle cyfartal i bawb.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm cyd lywodraethwyr am eu gwaith caled . Yr ydym hefyd fel Corff yn ddiolchgar i Gyfeillion y ddwy ysgol am eu cefnogaeth ariannol sydd o fantais i bob disgybl yn yr ysgol.

Yn olaf, fel Cadeirydd y Corff, hoffwn ddatgan ein diolch i'r Pennaeth a'r athrawon, cynorthwywyr dysgu, staff ategol, y rheini a'r disgyblion am lwyddiannau cyson y Ffederasiwn.

Y Cyng. Gwynfor Owen
Cadeirydd
Corff Llywodraethol Ffederasiwn Ysgolion Afon Dwyryd

# Y Corff LLywodraethol

**Pwy yw pwy ar y Corff Llywodraethol?**

DYMA RESTR O'R AELODAU OEDD AR Y CORFF LLYWODRAETHOL YN YSTOD 2022–2023.

**Cadeirydd – Gwynfor Owen** **Is-Gadeirydd – Meryl Roberts**

**Rhiant Llywodraethwyr:** Mae'r rhain yn cael eu hethol drwy bleidlais y rhieni ac yn gwasanaethu am dymor o 4 blynedd. Mae modd i chi gysylltu a chynrychiolydd y rhieni petai gennych unrhyw ymholiad.

| | DYDDIAD GORFFEN |
|---|---|
| Rachel Campbell | 31/08/26 |
| Gareth Cadwalader | 31/08/26 |
| Caryl Anwyl | 31/08/26 |

**Llywodraethwyr yr A.A.Ll. Gwynedd:** penodir y rhain gan yr Awdurdod Addysg Leol

| | |
|---|---|
| Gwynfor Owens | 31/08/26 |
| Meryl Roberts | 31/08/26 |
| Dewi Tudur Lewis | 31/08/26 |
| Eirian Harris | 31/08/26 |

**Llywodraethwyr Cyfetholedig**; gwahoddir hwy i ymuno â'r Corff Llywodraethol gan yr aelodau eraill fel arfer am eu gwaith yn y gymuned.

| | |
|---|---|
| Rhian Williams | 31/08/26 |
| Sian Llywelyn | 31/08/26 |
| Dylan Ellis | 31/08/26 |

**Cyngor Cymuned;** Penodiad Cyngor Cymuned

| | |
|---|---|
| Eluned Williams (Cyngor Tref Talsarnau) | 31/08/26 |

**Athro Llywodraethwr** Etholir o blith athrawon gan yr athrawon.

| | |
|---|---|
| Esyllt Rhys | 31/08/26 |
| Alaw Roberts | 31/08/27 |

**Staff Ategol yr ysgol:** Etholir o blith staff ategol yr ysgol gan y staff ategol.

| | |
|---|---|
| Gwawr Jones | 31/08/27 |
| Rhian Lumb | 31/08/27 |

**Y Pennaeth**: Gwion Wyn Owens

Clerc Llywodraethol 2023-2024 oedd Meinir Jones. Gellir cysylltu â'r Clerc drwy gysylltu â'r Ysgol.

Gellir cysylltu â Chadeirydd y Corff hefyd drwy anfon nodyn wedi ei gyfeirio ati drwy law Clerc y Corff.

## 1. Adroddiad a'r camau a gymerwyd yn dilyn adroddiad 2022-2023

Ni fu ymateb i'r adroddiad blynyddol diwethaf i rieni. Nid oedd unrhyw eitemau penodol i weithredu arnynt. Ni dderbyniwyd ceisiadau i gynnal cyfarfod rhieni yn ystod y flwyddyn.

## 2. Llywodraethwyr

Cynhaliwyd 4 cyfarfod llawn o'r llywodraethwyr yn ystod 2022-2023.

**Tymor yr Hydref 2023**
Medi 26ain
**Tymor y Gwanwyn 2024**
Ionawr 30ain
**Tymor yr Haf 2024**
Mai 15fed; Mehefin 25ain

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r is-bwyllgor pan oedd angen, i adolygu/diweddaru'r dogfennau polisi. Mae'r Pennaeth wedi cyflwyno adroddiad bob tymor ac yn cynnwys adroddiadau ar rifau a phresenoldeb, materion Cwricwlaidd a chanlyniadau, lles, rheoli, staffio a chyllid a rhoi adroddiad ar lwyddiannau'r ysgol. Mae cofnodion llawn y cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

## 3. Datganiad Ariannol

Gweler atodiad o gyllideb ddiweddaraf yr ysgol isod.

Cronfa'r Ysgol – Cafodd y gronfa ei harchwilio yn unol a'r gofynion.
Rhoddion i'r Ysgol: Mae'r ddwy ysgol yn hynod ffodus o fod â Chyfeillion weithgar a chefnogol iawn. Buont yn gweithio'n galed iawn ac yn gefnogol o ran codi arian ar gyfer yr ysgol - dymuna'r llywodraethwyr ddiolch i'r rhieni ac i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at eu hymdrechion i godi arian.
Costau Teithio a Cynnal Llywodraethwyr: £0.

**Defnydd y Grant Datblygu Disgyblion**

*Ysgol Cefn Coch*
Yn 2023-24 rhoddwyd i Ysgol Cefn Coch ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar o £6,900 ynghyd a'r Grant Gwella Addysg Cyfnod Sylfaen o £49,763 a'r Grant Gwella Addysg (arall) o £7,960. Cyfanswm o £64,623.

*Ysgol Talsarnau*
Yn 2023-24 rhoddwyd i Ysgol Talsarnau ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar o £0 ynghyd a'r Grant Gwella Addysg Cyfnod Sylfaen o £9,415 a'r Grant Gwella Addysg (arall) o £1,451. Cyfanswm o £10,866.

*Defnydd y Grantiau*
Roedd gennym gynllun gwariant cynhwysfawr, oedd yn cael ei fonitro gan Awdurdod Lleol Gwynedd, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Gweithio tuag at cymhareb y Dysgu Sylfaen
- Targedu ymyrraeth ar gyfer hyrwyddo lles a medrau allweddol disgyblion 3 i 11 oed.
- Hybu mynediad disgyblion at brofiadau all-gwricwlaidd cyfoethog gan gynnwys talu'n rhannol at gostau nofio.
- Rhyddhau'r CADY drefnu a monitro'r ymyriadau.

## 4. Presenoldeb 2022/23

*Ysgol Cefn Coch*

| | Tymor yr Hydref 2022 | Tymor y Gwanwyn 2023 | Tymor yr Haf 2023 |
|---|---|---|---|
| Presenoldeb | 91.43% | 92.87% | 91.81% |
| Absenoldebau awdurdodedig | 8.12% | 6.62% | 7.48% |
| Absenoldebau anawdurdodedig | 0.46% | 0.51% | 0.63% |
| **Targed Presenoldeb ar gyfer 2024-25 = >95%** | | | |

*Ysgol Talsarnau*

| | Tymor yr Hydref 2022 | Tymor y Gwanwyn 2023 | Tymor yr Haf 2023 |
|---|---|---|---|
| Presenoldeb | 91.38% | 95.47% | 92.55% |
| Absenoldebau awdurdodedig | 8.08% | 3.66% | 7.10% |
| Absenoldebau anawdurdodedig | 0.53% | 0.87% | 0.35% |
| **Targed Presenoldeb ar gyfer 2024-25 = >95%** | | | |

## 5. Derbyn disgyblion a Cyrchfannau y Disgyblion sydd yn trosglwyddo i'r Uwchradd

Bellach yr AALl sydd yn derbyn disgyblion i'r ysgol ac maent wedi sefydlu cyfundrefn lle mae'n rhaid i rieni gwblhau ffurflen yn gofyn am le i'w plant mewn ysgol. Yn 2023-2024 rhaid oedd cwblhau'r ffurflen erbyn 1af Chwefror, 2024.

*Ysgol Cefn Coch*

Cofrestrwyd 140 o blant yn llawn amser (gyda 21 yn cychwyn yn y dosbarth Derbyn) ac 17 plentyn yn rhan amser ym mis Medi 2023. Trosglwyddodd 24 plentyn i'r ysgol Uwchradd.

| | |
|---|---|
| Nifer y Disgyblion sydd yn gadael ar gyfer Ysgol Uwchradd ar ddiwedd y Flwyddyn Academaidd flaenorol: | 24 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Ysgol(ion) Uwchradd a'r nifer sydd wedi trosglwyddo ym Medi 2023 | Ysgol Ardudwy | 22 | Ysgol Eifionydd | 2 | Eraill | 0 |

*Ysgol Talsarnau*

Cofrestrwyd 26 o blant yn llawn amser (gyda 3 yn cychwyn yn y dosbarth Derbyn) ac 2 plentyn yn rhan amser ym mis Medi 2022. Trosglwyddodd 4 plentyn i'r ysgol Uwchradd.

| | |
|---|---|
| Nifer y Disgyblion sydd yn gadael ar gyfer Ysgol Uwchradd ar ddiwedd y Flwyddyn Academaidd flaenorol: | 4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yr Ysgol(ion) Uwchradd a'r nifer sydd wedi trosglwyddo ym Medi 2022 | Ysgol Ardudwy | 3 | Eraill | 1 |

## **6.** Cysylltiadau gyda'r Gymuned

Ymfalchïwn yn fawr fod yna bartneriaeth dda iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a chi fel rhieni. Cynhelir nosweithiau ymgynghorol yn dymhorol i drafod cynnydd y disgyblion. Cynhelir hefyd cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn i ddarparu gwybodaeth i'r rhieni e.e. cyfarfod i gyflwyno trefn yr ysgol i rieni darpar ddisgyblion meithrin yn ystod tymor yr haf cyn eu mynediad i'r ysgol.

Gosodir targedau i'r disgyblion ym mis Medi/Hydref ac mi fydd cyfarfodydd rhwng yr athrawon a'r rhieni yn Nhymor yr Hydref, ym mis Mawrth ac ar ddiwedd tymor yr Haf. Darperir hefyd ddyddiadur trwy'r app 'Our School' yn nodi dyddiadau pwysig y tymor.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored mewn ymateb i bob ymholiad.

Cyswllt â'r Heddlu - mae'r ysgol mewn cysylltiad agos â'r Heddlu. Ein swyddog addysg yw PC Sion Jones, sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r ysgol wedi cefnogi nifer o elusennau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys: Plant Mewn Angen, Macmillan a Blythswood. Gellir gweld rhestr lawn o'r ymwelwyr a'r ymweliadau yng nghofnodion cyfarfodydd y llywodraethwyr, sydd ar gael yn yr ysgol.

Cynhaliwyd nifer o ymweliadau cymunedol, a bu nifer o ymwelwyr o'r gymuned hefyd yn ymweld â'r ysgol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys: gwasanaeth boreol pob tymor gan aelod o Goleg y Bala, Beibl i Bawb, cyngerdd Nadolig, ymweliad â chartrefi preswyl Caerdydd; ymweliadau addysgol â chastell Harlech, canolfan MSparc, Gaerwen; cyflwyniadau gan PC Sion Jones; gweithdai gan Marged Gwenllïan o'r Urdd, y gwasanaeth cerdd ac actorion Mewn Cymeriad; bu i'r Urdd gyfarfod yn wythnosol yn nhymor yr Hydref a'r Gwanwyn a derbyniodd disgyblion hyfforddiant rygbi gan aelodau o Glwb Rygbi Harlech a Chlwb Rygbi Porthmadog a hyfforddiant pêl-droed gan Gethin Jones o Glwb Pêl-droed Y Bala.

Ceir rhestr lawn o'r ymwelwyr a'r ymweliadau yng nghofnodion llawn y llywodraethwyr, sydd ar gael yn yr ysgol.

## 7. Cynnydd gyda thargedau ar gyfer gwelliant a osodwyd gan y Corff Llywodraethol

**Blaenoriaeth 1:** Ennyn diddordeb plant mewn llyfrau a chymhelliant i ddarllen datblygu medrau darllen dysgwyr (sgiliau lefel gair yn benodol).

**Barn gyffredinol am gynnydd y flaenoriaeth: Da**

**Blaenoriaeth 2:** Datblygu medrau llafaredd a rhesymu mathemategol dysgwyr.

**Barn gyffredinol am gynnydd y flaenoriaeth: Da**

**Blaenoriaeth 3:** Codi safonau dysgu digidol disgyblion (Blaenoriaeth Clwstwr)

**Barn gyffredinol am gynnydd y flaenoriaeth: Boddhaol**

**Blaenoriaeth 4:** Asesu - Sut fydd datblygu asesu ac olrhain cynnydd yn cefnogi'r dysgu a'r addysgu ar draws yr ysgol?

**Barn gyffredinol am gynnydd y flaenoriaeth: Da**

**<u>Hunan Arfarnu a'r Cynllun Datblygu Ysgol.</u>**

Mae'r rhaglen hunan-arfarnu a fabwysiedir gan yr ysgol, y cydlynwyr pynciau a'r uwch dîm rheolaeth yn ein galluogi i wneud gwerthusiad beirniadol o holl bynciau'r cwricwlwm yn ogystal ag agweddau allweddol eraill o fywyd yr ysgol.

Cofnodir yr ymagweddau sydd angen datblygu ymhellach, ynghyd â blaengaredd newydd, yn y cynllun datblygu ysgol. Rhydd y ddogfen, sydd wedi ei chymeradwyo gan y bwrdd llywodraethol, weledigaeth glir i'r ysgol ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. Mae'r cynllun yn cael ei ddiwygio'n flynyddol.

## 8. Llwyddiannau ac Amcanion ym maes chwaraeon

**Blwyddyn Derbyn i 2** – Cymerai'r disgyblion ran mewn sesiwn datblygiad corfforol strwythuredig yn ystod yr wythnos.

**Blwyddyn 3- 6**– Cymerai'r disgyblion ran mewn sesiwn AG yn ystod yr wythnos sy'n cynnwys gymnasteg, dawns, gemau, aml-sgiliau, antur yn yr awyr agored, athletau, gemau tîm a nofio.

**All-gwricwlaidd** –Cynhaliwyd rhai o'r sesiynau hyfforddi gan glybiau yn y gymuned a'r sir yn ystod y flwyddyn.

## 9. Polisïau a Strategaethau

Cafodd polisïau ysgol amrywiol eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Mae copïau o'r polisïau ar gael yn yr ysgol.

<u>Codi tal am weithgareddau</u>

- Gyda gweithgareddau dewisol sy'n digwydd o bryd i'w gilydd yn ystod oriau ysgol gofynnir am gyfraniad gwirfoddol gan rieni. (Hysbysir y rhieni yn y dechrau mai gwirfoddol yw unrhyw gyfraniad ond cedwir yr hawl i beidio parhau gydag unrhyw drefniadau os nad oes digon o gyfraniadau wedi dod i law).

- Gofynnir am gyfraniad gwirfoddol gan rieni tuag at gludiant i wersi nofio
- Does dim tâl am ddeunyddiau ar gyfer gwersi fel celf/technoleg yn yr ysgol hon.

Os am fwy o wybodaeth gellir cysylltu â'r Pennaeth/llywodraethwyr i ganfod cynnwys y polisi llawn.

## 10. Dyddiadau'r Tymor

**GWYLIAU YSGOL 2023-2024**

**TYMOR:**
Hydref 2023: 1 Medi 2023 - 22 Rhagfyr 2023
Gwanwyn 2024: 8 Ionawr 2024 - 22 Mawrth 2024
Haf 2024 8 Ebrill 2024 - 19 Gorffennaf 2024

**Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Gwener, 1 Medi, 2023 i athrawon(diwrnod hyfforddiant).**
**Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Llun, 4 Medi, 2023.**

**GWYLIAU:**
30 Hydref - 3 Tachwedd 2023 (Hanner-Tymor)
25 Rhagfyr 2023 - 5 Ionawr 2024(Gwyliau'r Nadolig)
12 - 16 Chwefror 2024 (Hanner-Tymor)
25 Mawrth - 5 Ebrill 2024 (Gwyliau'r Pasg)
6 Mai 2024 (Calan Mai)
27 - 31 Mai 2024 (Hanner-Tymor)
22 Gorffennaf - 30 Awst 2024 (Gwyliau'r Haf)

**Oriau Dysgu Ysgol Cefn Coch**

<u>Amser y sesiynau:</u>

*Sesiwn y Bore:* 9:00am – 12:00pm (Derbyn – Bl2)

9:00am – 12:05pm (Bl3 – Bl6)

9:00am – 11:00am (Meithrin)

*Sesiwn y prynhawn:* 1:00pm – 3:15pm (Derbyn – Bl2)

1:00pm – 3:25pm (Bl3-6)

**Oriau Dysgu Ysgol Talsarnau**

<u>Amser y sesiynau:</u>

*Sesiwn y Bore:* 9:00am – 12:00pm (Derbyn – 6)

9:00am – 11:00am (Meithrin)

*Sesiwn y prynhawn:* 1:00pm – 3:15pm (Derbyn – Bl2)

1:00pm – 3:30pm (Bl3-6)

## 11. Newidiadau i Brosbectws yr Ysgol

Caiff llawlyfr blynyddol i rieni ei gyhoeddi sy'n cynnwys gwybodaeth ar drefniadau a rheolau'r ysgol. Mae copi o'r llawlyfr ar gael ar ap yr ysgol (OurSchoolsApp; adran dogfennau). Gall gynnwys newidiadau mewn polisi ysgol.

## 12. Cwricwlwm

Mae ein cwricwlwm yn sicrhau y caiff pob plentyn gyfle cyfartal trwy ddarparu cwricwlwm perthnasol, gwahaniaethol, eang a chytbwys sy'n dehongli gofynion Cwricwlwm i Gymru 2022 o fewn athroniaeth a pholisi'r AALl. Ceir ymdrechion i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a corfforol pob disgybl a bod y cwricwlwm cyfan yn wahaniaethol, eang a chytbwys. Ceir trefniadau hyblyg yn y dosbarth er mwyn cwrdd â'r gofynion. Caiff y disgyblion eu dysgu fel uned dosbarth o dan arolygiaeth athro/athrawes dynodedig. Mae'r addysgu yn amrywiol i gynnwys addysgu dosbarth cyfan, addysgu grŵp ac addysgu unigolion.

Defnyddia'r athrawon wahanol ddulliau addysgu i gyflwyno ac addysgu'r gwaith er mwyn cwrdd ag anghenion yr holl ddisgyblion cyn belled a bo modd. Defnyddir gwahanol ddulliau yn cynnwys dysgu gweithredol, dysgu cyfoedion, datrys problemau, datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd, dysgu yn awyr agored a dysgu trwy chwarae. Rydym hefyd yn defnyddio asesu ar gyfer dysgu er mwyn canfod cynnydd y dysgwyr o ddydd i ddydd.

Defnyddia'r ysgol y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ogystal a Fframwaith Cymhwysedd Digidol wrth gynllunio. Mae'r Fframweithiau yn nodi'n eglur y canlyniadau blynyddol disgwyliedig o ran llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob dysgwr rhwng 4-16 oed. Trwy ddefnyddio'r fframwaith, rydym yn sicrhau bod cyfleoedd o fewn cynlluniau gwaith ar gyfer disgyblion o bob gallu, i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn pob pwnc yn drawsgwricwlaidd.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol (ADY):**
Nod yr ysgol yw adnabod disgyblion yn gynnar er mwyn darparu'r ddarpariaeth orau a mwyaf cynhwysfawr, a'u cynorthwyo i gyrraedd eu llawn botensial. Ceir trefniadau gan yr ysgol i adnabod a darparu ar gyfer ADY disgyblion. Os oes pryder ynghylch disgybl, caiff Proffil un tudalen ei baratoi gyda thargedau penodol, dyddiadau adolygu a syniadau i rieni ynghylch sut i gefnogi eu plentyn gartref.

Os nad yw'r disgybl yn gwneud cynnydd, a bod angen cymryd gwahanol gamau a chael cefnogaeth arbenigol, byddwn yn cysylltu â'r AALL [gyda chaniatâd rhieni) ac efallai yn gofyn am arweiniad pellach ac o bosib cael Asesiad Statudol o anghenion arbennig. Mewn achos o'r fath, caiff CDU Awdurdod ei baratoi ar gyfer y disgybl. Bydd y CDU yn disgrifio anghenion y disgybl a'r gefnogaeth a ddarperir. Ar ôl canfod bod ar y disgybl angen cefnogaeth bellach, cysylltir â rhieni'r disgybl ar bob cam.

Cyd-gysylltydd ADY Ysgol Cefn Coch yw Sara Elan Roberts ac Alaw Roberts ar gyfer Ysgol Talsarnau. Gwynfor Owen yw'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer ADY. Gweler adroddiadau cyfarfodydd y Corff llywodraethol am fanylion pellach ynglŷn â maes ADY yn ystod y flwyddyn. Ceir copi o'r polisi ADY gan yr ysgol.

**Anabledd**
Yn gynwysedig ym mholisïau ADY a Chyfleoedd Cyfartal yr ysgol y mae manylion ynglŷn â derbyn a mynediad i ddisgyblion anabl. Mae'r wybodaeth yn gynwysedig hefyd yng nghynllun Anabledd a Hygyrchedd yr Ysgol. Petai blentyn anabl yn yr ysgol asesir y sefyllfa gan amryw o sefydliadau a gwasanaethau. Darperir cymorth yn ôl argymhellion yr arbenigwyr. Ym mhob achos, gwneir pob ymdrech i sicrhau cyfle cyfartal i holl anghenion disgyblion, athrawon a rhieni. Mae gan yr ysgol cynllun Cydraddoldeb Anabledd.

Fel ym mhob agwedd o fywyd ysgol ceisir sicrhau fod cyrsiau hyfforddiant ar gael i'r athrawon er mwyn ehangu ar eu datblygiad proffesiynol.  Croesawir disgyblion anabl i ymuno ag ysgolion y Ffederasiwn.

## 13. Cyfrwng Iaith

Mae'r ysgol wedi ei dynodi yn 'Ysgol Ddwyieithog' yn unol â pholisi iaith yr AALl. Mae'r ysgol yn gweithredu'r polisi iaith o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Amcan y Polisi Iaith yw datblygu gallu pob disgybl fel ei fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2 fel y dônt yn aelodau llawn o'u cymuned ddwyieithog.

**Addysg Dosbarth Meithrin/Derbyn**
Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth bwrpasol a sensitif, y caiff pob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn dod yn hollol ddwyieithog maes o law. Ble mae'r Saesneg yw'r famiaith, caiff ei pharchu a'i gwarchod.

**Blwyddyn 1 a 2**
Adeiladu ar y sylfeini ar gyfer y Gymraeg trwy gyfrwng addysg dosbarth meithrin a dosbarth derbyn. Cadarnhau a datblygu mamiaith plentyn sy'n dysgu Cymraeg a bod y plentyn o gartref ble siaredir y Gymraeg yn cael gwell gafael ar Saesneg. Atgyfnerthu a datblygu Cymraeg a Saesneg plentyn sy'n siarad mamiaith arall.

**Blwyddyn 3 i 6**
Atgyfnerthu a datblygu Cymraeg a Saesneg pob disgybl yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau y gall siarad, darllen ac ysgrifennu'r ddwy iaith yn rhugl ac yn hyderus wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Gwneir trefniadau ar gyfer hwyrddyfodiaid yn Blynyddoedd 3-6 i fynychu yr Uned Iaith ble ceir cyfleusterau i gyflwyno cyrsiau dwys arbenigol ar gyfer dysgwyr. Bydd y dysgwyr yn trosglwyddo'n ôl i'r ysgol gynradd o fewn tymor.

**Siarter Iaith Gymraeg**
Caiff amcan y Siarter iaith ei hyrwyddo gennym er mwyn rhoi arweiniad o ran cynnydd defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn gymdeithasol. Bu'r Cyngor Ysgol yn cynllunio ac yn trefnu wythnos lwyddiannus yn dathlu'r Iaith Gymraeg a'r Diwylliant.

## 14. Toiledau'r Ysgol

Mae'r rhain yn doiledau wedi eu hadeiladu'n bwrpasol, yn cynnwys toiledau 'bychain' yn y dosbarth Derbyn i Blwyddyn 2. Ceir cuddygl toiledau ar wahân ar gyfer bechgyn a genethod yn Sylfaen ac Iau.

Cynhelir archwiliad dyddiol yn yr ysgol er mwyn sicrhau fod yr adeilad, gan gynnwys y cyfleusterau yn ddiogel ac yn lân. Delir yn syth ag unrhyw broblemau cynnal a chadw.

## 15. Bwyta ac Yfed yn Iach

Mae gan y Ffederasiwn ddull effeithiol o hyrwyddo bwyd a ffitrwydd gan ein bod yn ymwybodol bod diet a gweithgarwch corfforol yn cael effaith gadarnhaol ar les corfforol, meddyliol ac emosiynol y disgyblion. Credwn fod gennym ddyletswydd i annog pawb yn y gymuned i fyw bywydau egnïol a iach trwy ddarparu gwybodaeth a sgiliau i sefydlu a chynnal ffyrdd o fyw iachus gydol oes ynghyd ag arferion bwyta'n iach.

Rydym yn sicrhau fod y bwyd a ddarperir yn yr ysgol yn iach ac yn hyrwyddo ffordd iach o fyw. Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwersi Addysg Gorfforol o ansawdd uchel ynghyd a sesiynau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Mae'r gegin yn cydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau bod yr holl giniawau yn faethlon. Mae ein geginau wedi cael eu graddio fel 5 seren ar gyfer glanweithdra a hylendid. Rydym yn annog rhieni i ddarparu bocsys bwyd a byrbrydau iach i'w plant pan fyddant yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn mabwysiadu'r canlynol i hyrwyddo ffordd iach o fyw:

- Gweithgarwch corfforol o fewn y cwricwlwm
- Nofio i ddisgyblion Blwyddyn 2 i 6 (Cefn Coch)
- Nofio i ddisgyblion Derbyn i 6 (Talsarnau)
- Clybiau gweithgaredd corfforol allgyrsiol
- Addysg awyr agored
- Prydau ysgol
- Bwyd a maeth yn y cwricwlwm
- Clwb brecwast iach
- Llefrith am ddim i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen

**GWARCHOD a'r CLWB BRECWAST**

Mae'r Clwb Gwarchod ar agor yn foreol o 8:05am tan 8:20am ar gyfer plant y dosbarth Meithrin a hŷn. Rhaid talu £1.00 am eich plentyn cyntaf ac ail am yr elfen gofal plant cyn y clwb brecwast. Mae disgownt ar gyfer teuluoedd o 3 neu fwy o blant cynradd sy'n defnyddio'r clwb gofal cyn-ysgol.

Mae'r drysau ar agor ar gyfer y Clwb Brecwast o 8:20am tan 8:50am. Nid oes ffi ar gyfer y Clwb brecwast. Yn ystod y cyfnod hwn gall y plant fwynhau tost a sudd ffrwythau yn ogystal â grawnfwyd.

## 16. DEISEB RHIENI A CHYFARFODYDD

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw.

Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

1. **Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.**
Bydd angen i rieni o leiaf 10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'llofnodi'r' ddeiseb electronig.
Gallwch gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael gwybod yn union faint sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

2. **Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.**
Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu.
Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

**3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol**
Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

**4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol**
Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod.
Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol:

Cadeirydd Llywodraethwyr<br>
Ysgol Cefn Coch<br>
Stryd yr Ysgol<br>
Penrhyndeudraeth<br>
Gwynedd<br>
LL48 6AE

Cadeirydd Llywodraethwyr<br>
Ysgol Talsarnau<br>
Talsarnau<br>
Gwynedd<br>
LL47 6TA

| YSGOL CEFN COCH | 2208 | | 2208 |
|---|---|---|---|
| CYLLIDEB - 2024/25 | Cyllideb Drafft 2024/25 | Addasiadau | Cyllideb Terfynol 2024/25 |
| | | | |
| **GWEITHWYR** | | | |
| Cyflogau - Athrawon | £546,791 | -£31,849 | **£514,941** |
| Athrawon Llanw - Premiwm Cynllun Absenoldebau | £29,557 | | **£29,557** |
| - Llanw Arall | £10,500 | | **£10,500** |
| - Amser Di-gyswllt Ysgol | £0 | | **£0** |
| - Anghenion Arbennig | £0 | | **£0** |
| Staff Ategol - Staff Cinio | £5,584 | | **£5,584** |
| - Cymorthyddion Dosbarth | £147,794 | -£3,094 | **£144,700** |
| - Clerigol | £18,414 | | **£18,414** |
| - Clerc Llywodraethwyr | £1,535 | | **£1,535** |
| - Gofalwr (Goramser) | £500 | | **£500** |
| | | | |
| **ADEILADAU** | | | |
| Cynnal a Chadw | £2,900 | | **£2,900** |
| Cynnal a Chadw - Adran Eiddo | £7,730 | | **£7,730** |
| CLG Gwasanaeth Eiddo | £2,917 | | **£2,917** |
| Costau Ynni - Trydan | £15,000 | | **£15,000** |
| - Nwy | £9,000 | | **£9,000** |
| - Dwr | £7,000 | | **£7,000** |
| - Olew | £0 | | **£0** |
| Contract Glanhau | £32,505 | | **£32,505** |
| Contract Gofalu | £0 | | **£0** |
| Contract Cynnal Tir | £1,980 | | **£1,980** |
| Defnyddiau Glanhau | £400 | | **£400** |
| Offer Ymladd Tân | £200 | | **£200** |
| Trethi | £13,770 | | **£13,770** |
| | | | |
| **CYFLENWADAU A GWASANAETHAU** | | | |
| Lwfans y Pen | £17,500 | | **£17,500** |
| Dodrefn | £240 | | **£240** |
| Post | £200 | | **£200** |
| Ffôn/ Ffacs a Rhwydwaith | £350 | | **£350** |
| CLG Canolfan Fusnes Addysg - Craidd | £6,728 | | **£6,728** |
| CLG Canolfan Fusnes Addysg - Dewisol | £235 | | **£235** |
| CLG Gwasanaeth Cyllidol | £862 | | **£862** |
| CLG Rheoli Banc | £299 | | **£299** |
| CLG Cyflogau | £1,424 | | **£1,424** |
| CLG Personel | £1,851 | | **£1,851** |
| CLG Arlwyaeth | £45,781 | | **£45,781** |
| CLG Llyfrgelloedd | £105 | | **£105** |
| CLG Archifau | £495 | | **£495** |
| Pyllau Nofio a Chwaraeon | £5,000 | | **£5,000** |
| Gwasanaeth Cerdd | £1,500 | | **£1,500** |
| CLG Cefnogaeth Technoleg | £2,445 | | **£2,445** |
| Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion | £3,739 | | **£3,739** |
| Arian Wrth Gefn (arian heb ei ymrwymo) | £0 | | **£0** |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **£942,831** | **-£34,943** | **£907,887** |
| | | | |
| INCWM - Defnydd Cymunedol | £0 | | **£0** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CYFANSWM CYLLIDEB NET | £942,831 | -£34,943 | £907,887 |
| DYRANIAD | £771,408 | | £771,408 |
| GWAHANIAETH TYMOR HIR | -£171,423 | £34,943 | -£136,480 |
| ADDASIADAU TYMOR BYR | | | |
| Defnydd o balansau | £0 | £22,657 | £22,657 |
| Grant Safonau | £67,398 | | £67,398 |
| Grant Dysgu Proffesiynol | £3,254 | | £3,254 |
| Grant Gweithredu ADY | £4,113 | | £4,113 |
| Grant Datblygu Disgyblion | £23,000 | | £23,000 |
| Grant / Dyraniad Cynnydd Pensiwn Athrawon | £16,057 | | £16,057 |
| GWAHANIAETH 2024/25 | -£57,600 | £57,600 | £0 |

| YSGOL TALSARNAU | | | 2210 |
|---|---|---|---|
| CYLLIDEB - 2024/25 | Cyllideb Drafft 2024/25 | Addasiadau | Cyllideb Terfynol 2024/25 |
| GWEITHWYR | | | |
| Cyflogau - Athrawon | £168,552 | | £168,552 |
| Athrawon Llanw - Premiwm Cynllun Absenoldebau | £10,156 | | £10,156 |
| - Llanw Arall | £0 | | £0 |
| - Amser Di-gyswllt Ysgol | £9,700 | | £9,700 |
| - Anghenion Arbennig | £0 | | £0 |
| Staff Ategol - Staff Cinio | £6,259 | | £6,259 |
| - Cymorthyddion Dosbarth | £41,802 | | £41,802 |
| - Clerigol | £0 | | £0 |
| - Clerc Llywodraethwyr | £0 | | £0 |
| - Gofalwr (Goramser) | £0 | | £0 |
| ADEILADAU | | | |
| Cynnal a Chadw | £1,300 | | £1,300 |
| Cynnal a Chadw - Adran Eiddo | £1,878 | | £1,878 |
| CLG Gwasanaeth Eiddo | £1,126 | | £1,126 |
| Costau Ynni - Trydan | £3,500 | | £3,500 |
| - Nwy | £600 | | £600 |
| - Dwr | £1,000 | | £1,000 |
| - Olew | £1,500 | | £1,500 |
| Contract Glanhau | £11,795 | | £11,795 |
| Contract Gofalu | £0 | | £0 |
| Contract Cynnal Tir | £2,280 | | £2,280 |
| Defnyddiau Glanhau | £250 | | £250 |
| Offer Ymladd Tân | £200 | | £200 |
| Trethi | £2,330 | | £2,330 |
| CYFLENWADAU A GWASANAETHAU | | | |
| Lwfans y Pen | £5,000 | £2,000 | £7,000 |
| Dodrefn | £80 | | £80 |
| Post | £100 | | £100 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffôn/ Ffacs a Rhwydwaith | £200 | | £200 |
| CLG Canolfan Fusnes Addysg - Craidd | £2,400 | | £2,400 |
| CLG Canolfan Fusnes Addysg - Dewisol | £60 | | £60 |
| CLG Gwasanaeth Cyllidol | £471 | | £471 |
| CLG Rheoli Banc | £151 | | £151 |
| CLG Cyflogau | £325 | | £325 |
| CLG Personel | £422 | | £422 |
| CLG Arlwyaeth | £13,200 | | £13,200 |
| CLG Llyfrgelloedd | £63 | | £63 |
| CLG Archifau | £495 | | £495 |
| Pyllau Nofio a Chwaraeon | £1,700 | | £1,700 |
| Gwasanaeth Cerdd | £1,300 | | £1,300 |
| CLG - Cefnogaeth Technoleg | £1,128 | | £1,128 |
| Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion | £2,719 | | £2,719 |
| Arian Wrth Gefn (arian heb ei ymrwymo) | £0 | | £0 |
| CYFANSWM GWARIANT | £294,044 | £2,000 | £296,044 |
| INCWM - Defnydd Cymunedol | £0 | | £0 |
| CYFANSWM CYLLIDEB NET | £294,044 | £2,000 | £296,044 |
| DYRANIAD | £188,908 | £55,674 | £244,582 |
| GWAHANIAETH TYMOR HIR | -£105,135 | £53,674 | -£51,461 |
| ADDASIADAU TYMOR BYR | | | |
| Defnydd o balansau | £0 | £24,740 | £24,740 |
| Grant Safonau | £15,653 | | £15,653 |
| Grant Dysgu Proffesiynol | £1,146 | | £1,146 |
| Grant Gweithredu ADY | £1,619 | | £1,619 |
| Grant Datblygu Disgyblion | £2,300 | | £2,300 |
| Grant / Dyraniad Cynnydd Pensiwn Athrawon | £6,004 | | £6,004 |
| GWAHANIAETH 2024/25 | -£78,414 | £78,414 | £0 |